north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

# ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU
# 5ed CHWEFROR, 2021

**TEITL:** *Adroddiad ar Uchafbwyntiau'r Portffolio – Chwefror 2021*

**AWDUR:** *Hedd Vaughan-Evans, Rheolwr Gweithrediadau*

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw diweddaru'r Bwrdd Uchelgais ar y cynnydd a wnaed ers cwblhau'r Cytundeb Terfynol yn Rhagfyr 2020.

1.2. Mae ystyriaeth o'r Adroddiad a'r Uchafbwyntiau'r Portffolio gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn un o'r amodau ar gyfer derbyn cyfran cyntaf y cyllid Cynllun Twf. Bydd adroddiadau pellach ar gynnydd y Cynllun Twf yn cael ei gyflwyno ar ffurf adroddiad chwarterol ffurfiol. Bydd yr adroddiad chwarterol cyntaf yn cael ei gyflwyno ar gyfer Chwarter 4 2020-21.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Y Bwrdd i nodi'r Adroddiad ar Uchafbwyntiau'r Portffolio ar gyfer Chwefror 2021 a'r cynnydd ers cwblhau'r Cytundeb Twf yn Rhagfyr 2020.

2.2. Cymeradwyo cyflwyno'r Adroddiad ar Uchafbwyntiau'r Portffolio ar gyfer Chwefror 2021 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth Prydain.

## 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Yn ystod Rhagfyr 2020, cytunodd y Bwrdd Uchelgais i Gytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Prydain.

4.2. Mae'r Adroddiad ar Uchafbwyntiau'r Portffolio yn rhoi diweddariad ar y cynnydd ers arwyddo'r cytundeb, a throsolwg o'r sefyllfa bresennol gyda phob rhaglen a phrosiect o fewn y cynllun gydag amserlen wedi ei diweddaru ar gyfer cyflawni. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio yn benodol ar yr amserlen i'r Bwrdd Uchelgais ystyried yr Achosion Busnes Amlinellol.

4.3. Mae ystyriaeth o'r Adroddiad a'r Uchafbwyntiau'r Portffolio gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a chyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth Prydain yn un o'r gofynion ar gyfer tynnu lawr y cyfran cyntaf o'r cyllid.

4.4. Atodir copi o'r Adroddiad a'r Uchafbwyntiau'r Portffolio yn ***Atodiad 1***.

**ATODIADAU:**

**Atodiad 1** *Adroddiad ar Uchafbwyntiau'r Portffolio – Chwefror 2021*

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**

"Un o swyddogaeth creiddiol y Bwrdd Uchelgais yw monitro cynnydd a chyflawniad yn y portffolio o raglenni a prosiectau. Mae'r adroddiad yma yn darparu trosolwg priodol er cefnogi'r gwaith yma."

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**

"Fel mae paragraff 1.2 yn nodi, mae'r adroddiad yma'n allweddol ar gyfer sicrhau derbyn y rhandaliad grant cyntaf oddi wrth y Llywodraeth ym mis Mawrth."